DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL **Bil y Gymraeg**

DYDDIAD **1 Chwefror 2019**

GAN **Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

Yn y Papur Gwyn, *Taro'r cydbwysedd iawn*, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynigion am Fil y Gymraeg newydd. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r dystiolaeth ddiweddar oddi wrth nifer o randdeiliaid i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, mae'r Prif Weinidog, y Cabinet a minnau yn gytûn nad ydym am fwrw ymlaen i gyflwyno Bil y Gymraeg.

Y ddau brif nod o'r cychwyn oedd torri lawr ar fiwrocratiaeth y system safonau'r Gymraeg, a sefydlu trefniadau priodol ar gyfer hybu defnyddio'r Gymraeg er mwyn cyrraedd yr amcanion uchelgeisiol yn ein strategaeth, *Cymraeg 2050*.

Er yr anfodlonrwydd gyda rhai agweddau o'r safonau, mae'n glir nad oes awydd i newid y system yn ei chrynswth. Rwy'n hyderus bod modd torri lawr ar fiwrocratiaeth ac ymdrin â chwynion yn fwy effeithiol o fewn y ddeddfwriaeth bresennol. Byddaf yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i weithredu newidiadau yn fuan. Yn ogystal, byddaf yn ail-gychwyn y rhaglen o gyflwyno safonau ar gyfer cyrff newydd, cyn gynted ag y bydd yr amserlen deddfu ar gyfer Brexit yn eglur. O ran cyrff preifat eraill, megis banciau ac archfarchnadoedd, bydd y Comisiynydd a minnau yn parhau i ymgynghori yn agos â nhw a'u gwthio i ddarparu mwy o wasanaethau, yn fwy cyson, yn y Gymraeg.

Mewn perthynas â threfniadau i hybu'r Gymraeg, byddaf yn trafod y ffordd orau ymlaen gyda rhanddeiliaid, gan edrych eto ar y ffordd y mae cyfrifoldebau wedi eu dyrannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol nes i mi gael cyfle i drafod yr heriau a ddaw o hyn gyda'r Comisiynydd, Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill.